Cabinet Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Cabinet

---

CYFARFOD CABINET RHANBARTHOL: 08 HYDREF 2018

Aelodau'r Cabinet Rhanbarthol a oedd yn bresennol:

Y Cyng. Nigel Daniels, Arweinydd	-	Cyngor Blaenau Gwent
Michelle Morris, Rheolwr Gyfarwyddwr	-	Cyngor Blaenau Gwent
Darren Mepham, Prif Weithredwr	-	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cyng. David Poole, Arweinydd	-	Cyngor Caerffili
Christina Harrhy, Prif Weithredwr Dros Dro	-	Cyngor Caerffili
Y Cyng. Huw Thomas, Arweinydd	-	Cyngor Caerdydd
Paul Orders, Prif Weithredwr	-	Cyngor Caerdydd
Y Cyng. Kevin O'Neill, Arweinydd	-	Cyngor Merthyr Tudful
Gareth Chapman, Prif Weithredwr	-	Cyngor Merthyr Tudful
Paul Matthews, Prif Weithredwr	-	Cyngor Sir Fynwy
Y Cyng Mark Whitcutt	-	Cyngor Casnewydd
Will Godfrey, Prif Weithredwr	-	Cyngor Casnewydd
Y Cyng. Andrew Morgan, Arweinydd (Cadeirydd)	-	Cyngor Rhondda Cynon Taf
Chris Bradshaw, Prif Weithredwr	-	Cyngor Rhondda Cynon Taf
Y Cyng. Richard Clark	-	Cyngor Torfaen
Alison Ward, Prif Weithredwr	-	Cyngor Torfaen
Y Cyng. John Thomas, Arweinydd	-	Cyngor Bro Morgannwg
Rob Thomas, Prif Weithredwr	-	Cyngor Bro Morgannwg

Swyddogion:

Christine Salter	-	Corff Atebol
Liz Weale	-	Corff Atebol
Hrjinder Singh	-	Corff Atebol
David Marr	-	Cyngor Caerdydd
Peter Davies	-	Cyngor Sir Fynwy
Alistair Milburn	-	Effective Communications
Kellie Beirne	-	Swyddfa Rheoli Rhaglen y Fargen Ddinesig
Matt Swindell	-	Swyddfa Rheoli Rhaglen y Fargen Ddinesig

Ymddiheuriadau:

Y Cyng. Huw David, Arweinydd	-	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cyng. Peter Fox, Arweinydd	-	Cyngor Sir Fynwy
Y Cyng. Debbie Wilcox, Arweinydd	-	Cyngor Casnewydd
Y Cyng. Anthony Hunt, Arweinydd	-	Cyngor Torfaen

1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cyng. Morgan gydweithwyr i'r cyfarfod ac fe nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

Ar ddechrau'r cyfarfod, darllenodd y Cyng Andrew Morgan y datganiad canlynol i'r Cabinet Rhanbarthol:-

Aelodau, cyn i mi ddechrau cyfarfod rhaid i mi roi gwybod i chi nad yw copïau o'r Agenda ar gyfer cyfarfod heddiw, gan gynnwys cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r adroddiad y cyfeirir ato, wedi bod ar gael i'r cyhoedd ei archwilio yn ein swyddfeydd amrywiol o leiaf tri diwrnod clir cyn y cyfarfod, yn unol â deddfwriaeth o ganlyniad i wallau technegol yn anffodus.

Gyda chytundeb yr Aelodau, awgrymaf fod y cyfarfod yn mynd yn ei flaen er gwaethaf hyn, er y gellir ei ystyried yn dechnegol yn gyfarfod a gynhelir â llai o rybudd, llai na 3 diwrnod clir, a'n bod, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn ystyried yr adroddiad ar Broject CSC yn frys.

Wrth ystyried y mater hwn rwyf wedi dal sylw ar y ffeithiau canlynol:-

(a) mae ond un eitem barhaol ar yr agenda i'w hystyried, sef Project CSC – Diweddariad ar Gynnydd y Cynllun Busnes Blynyddol 2018-19 a Diwygiadau Arfaethedig i'r Cytundeb Datblygu i'w Lesu;
(b) Ces i wybod bod angen penderfyniad ar adroddiad CSC yn frys, y bydd Cyfarwyddwr CPRC yn ei esbonio. Yn unol â hynny, ni ellir oedi'r penderfyniad r Broject CSC tan ddiwrnod yn y dyfodol. Dyma'r rheswm dros amserlennu cyhoeddi adroddiad CSC yn ein cyfarfod ym mis Hydref;
(c) roedd yr Agenda a'r Adroddiadau ar gael i'w harchwilio ym mhob awdurdod o ddydd Iau 4 Hydref 2018 ac mewn rhai awdurdodau'n gynharach; a
(ch) cafodd Aelodau'r Cabinet Rhanbarthol yr Agenda a'r adroddiad ar 02 Hydref 2018.

Esboniodd Kellie Beirne, Cyfarwyddwr CPRC fod rheidrwydd masnachol yn ymwneud â phroject CSC y mae angen arnynt benderfyniad ar adroddiad CSC heb oedi.

Parhaodd y Cyng Andrew Morgan i ddweud, felly oherwydd yr amgylchiadau arbennig y soniwyd amdanynt, fy mod yn cynnig bod y cyfarfod yn symud ymlaen a bod adroddiad CSC yn cael ei ystyried yn frys.

Gofynnodd y Cyng Morgan a ddylai'r Aelodau'n cytuno i symud ymlaen ar sail y wybodaeth yn y datganiad a'r esboniad canlynol, a gytunwyd gan Aelodau'r cabinet Rhanbarthol. Yna gofynnodd y Cynghorydd Morgan bod y cais yn cael ei nodi yn y cofnodion.

2. Datgan Buddiannau

Gofynnodd y Cyng. Morgan i bob Aelod ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â Chod Ymarfer yr Aelodau.

Datganodd y Cyng Clark fuddian personol (ond ddim yn anffafriol) fel aelod o Fwrdd Ffowndri CSC.

3. Cofnodion Drafft y Cabinet Rhanbarthol a gynhaliwyd ar 24 Medi 2018

Derbyniwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2018 fel cofnod cywir.

4. Project CSC – Diweddariad ar Gynnydd y Cynllun Busnes Blynyddol 2018-19 a Diwygiadau Arfaethedig i'r Cytundeb Datblygu i'w Lesu (Cofnod Rhif 12)

Mae Atodiadau 1-10 yr adroddiad hwn wedi'u heithrio rhag cael eu cyhoeddi am eu bod yn cynnwys gwybodaeth o'r fath a ddisgrifir ym mharagraffau 14 {gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod su'n cadw'r wybodaeth honno)} Rhan IV a 21 (ymhob un o amgylchiadau'r achos mae'r budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad yn bwysicach na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth) rhan V atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae Atodlen 8 yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio o gael ei chyhoeddi o dan baragraffau 19 (braint broffesiynol gyfreithiol) Atodlen 12A rhan IV Deddf Llywodraeth Leol 1972, Paragraff 14 {Gwybodaeth sy'n perthyn i faterion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n cadw'r wybodaeth honno)} Rhan IV a Pharagraff 21 (ymhob un o amgylchiadau'r achos mae'r budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad yn bwysicach na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth) rhan V atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Cyngor Sir Fynwy fel Awdurdod Arweiniol CSC Foundry ynghylch Project CSC – Diweddariad ar Gynnydd y Cynllun Busnes Blynyddol 2018-19 a Diwygiadau Arfaethedig i'r Cytundeb Datblygu i'w Lesu i'w hystyried a'u cymeradwyo.

PENDERFYNWYD: cytunwyd bod y Cabinet Rhanbarthol:

a) Cymeradwyo Cynllun Blynyddol CSC Foundry Limited ar gyfer 2018-19 yn ogystal â'r gweithred amrywio arfaethedig i'w Cytundeb Datblygu i'w Lesu, fel y nodir yng nghorff yr adroddiad ac fel y cynhwysir yn atodiadau cyfrinachol perthnasol yr adroddiad;

b) Nodi'r diweddariad ar gynnydd gyda Phroject CSC.

Diolchodd y Cyng. Morgan i'w gyd-aelodau am fod yn bresennol a daeth y cyfarfod i ben.